


# Creu: Cyrraedd: Cynnal

## dyfodol y celfyddydau yng Nghymru

Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru 2015 | Penderfyniadau cam 1af

Medi 2015

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

*Clawr blaen*

*Company of trees*, Helen Sear – Cymru yn Fenis 2015

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Rhagair gan Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

Annwyl Gydweithwyr

Mae'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn y celfyddydau, a thrwy'r celfyddydau, yng Nghymru ers Datganoli yn fater o lwyddiant mawr. Diffiniwyd Cymru newydd gan y celfyddydau, gan sbarduno ein creadigrwydd fel cenedl ym mhob agwedd. Ond gallai'r celfyddydau a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru fod mewn perygl.

Nid am nad yw pobl yn poeni – mae'r cyhoedd yn mwynhau'r celfyddydau ac yn eu mwynhau yn fwy nag erioed. Nid am fod y gwaith o safon isel – mae barn y beirniaid a'r bri rhyngwladol yn mynnu'n wahanol. Mae'r celfyddydau mewn perygl am fod pwysau economaidd parhaus yn gorfodi dewisiadau anghyfforddus ynglŷn â pha feysydd o'n bywyd dinesig y mae ein Llywodraeth genedlaethol a lleol yn teimlo sy'n haeddu ein cymorth.

Gwyddom fod y rhain yn amserau anodd. Ond os ydym am i Gymru fod, yng ngeiriau'r Llywodraeth, yn deg, ffyniannus a hyderus, ac yn gwella ansawdd bywyd i'w phobl yn holl gymunedau'r wlad, mae'n rhaid inni wneud y dewisiadau, gan gynnwys y Llywodraeth, sy'n galluogi hyn. Mae'r celfyddydau yn cynorthwyo'r nodau hynny. Mae'r celfyddydau yn goleuo ac yn rhoi bywyd i'r amrywiaeth eang o strategaethau sy'n sylfaen i fywyd cyhoeddus. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, o gelf gyhoeddus i adfywio canol trefi, mae'r celfyddydau yn rhoi ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywydau bob dydd. Maent yn creu a chynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dwyn pobl ynghyd, ac yn gwella ansawdd bywyd. Mae'r celfyddydau yn cyfri.

Fel stiwardiaid buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau, cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw amddiffyn y celfyddydau, gan sicrhau y gall pobl Cymru barhau i fwynhau a chymryd rhan yn yr hyn sydd gan y celfyddydau i'w gynnig, a hynny am amser hir. Y mae'n gyfrifoldeb yr ydym yn barod i'w dderbyn.

Roedd ein Hadolygiad Buddsoddi diwethaf, yn 2010, yn gadarn a radical – bu ein proses yn 2015 yr un mor gadarn o ran craffu. Unwaith eto, bu ein nod yn syml – sicrhau sector y celfyddydau sy'n fywiog a gwydn lle y gall y goreuon o blith ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol ffynnu, nid goroesi yn unig. A hynny yn ystod un o'r gwasgfeydd dwysaf ar fuddsoddiad cyhoeddus mewn cof.

Mae'r papur hwn yn nodi'r ffactorau a ddylanwadodd ar ystyriaethau'r Cyngor. O'r cychwyn, rydym wedi bod yn ymrwymedig i fod yn agored a thryloyw. Rydym wedi esbonio ein dull o weithredu a chyhoeddi'r meini prawf a fydd yn arwain ein penderfyniadau. Yn y tudalennau canlynol, rhown grynodeb o'r penderfyniadau a wnaethom ac esbonio pam inni eu gwneud.

Cymhlethwyd ein tasg gan y ffaith y bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau y flwyddyn nesaf yn cael ei gadarnhau yn hwyrach na'r arfer. Mae hyn yn creu problem ymarferol. Rydym yn cynllunio yn y tywyllwch, ac yn llunio rhestr dros dro o sefydliadau i'w cynorthwyo heb wybod a fydd gennym y cyllid llawn.

Cyflwynodd 94 o sefydliadau gais am ein cymorth – 67 a wnaeth y cais cryfaf i gael eu cynnwys yn ein portffolio refeniw. Gobeithiwn y bydd lefel y cyllid a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru yn ein galluogi i weithredu'r cynigion hyn.

Yn 2010, rhoesom y gorau i roi cyllid refeniw i ragor na 30 o sefydliadau. Y tro hwn, nid ydym yn bwriadu rhoir gorau i ariannu ar raddfa fawr – mae ein portffolio presennol o sefydliadau wedi perfformio'n dda dros y pum mlynedd diwethaf. Ni chaiff y sefydliadau hynny y mae eu cyllid refeniw yn dod i ben eu taflu ar y domen. Bydd cymorth ar gael iddynt drwy Gronfa Bontio a bydd pob un yn gymwys i ymgeisio am gyllid Loteri yn y dyfodol.

Heddiw, cymerwn y cam cyntaf ymlaen at weithredu penderfyniadau Adolygiad Buddsoddi 2015. Ac unwaith y bydd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 wedi'i gadarnhau, byddwn yn cymryd yr ail gam – cadarnhau aelodaeth y portffolio a manylion terfynol ein dyraniadau ariannol. Tan hynny, byddwn yn gweithio hyd eithaf ein gallu i ddwyn perswâd ar y Llywodraeth ynghylch pwysigrwydd cefnogi ein cynlluniau yn llawn.

Mae ein portffolio yn cynnwys rhwydwaith Cymru-gyfan o sefydliadau celfyddydol, o'r rhyngwladol i'r lleol – sefydliadau sy'n dathlu'r pethau gorau sydd gan Gymru i'w gynnig ar lwyfan byd-eang, a'r rhai sy'n gweithio ar lefel gymunedol. Y mae'n ddull sy'n gyson â strategaeth y celfyddydau, *Ysbrydoli*, a gyhoeddwyd gennym y llynedd.

Rydym yn ymwybodol y bu'r Adolygiad Buddsoddi yn destun pryder ac ansicrwydd i rai. Gwyddom, hefyd, am y gwaith caled rhyfeddol sydd ynghlwm wrth baratoi'r ceisiadau. Waeth beth yw'r canlyniad, dymunwn estyn ein diolch i'r sefydliadau hynny a gyflwynodd gais.

Symudwn ymlaen â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol: Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd y genedl – lle y caiff ein doniau gorau eu hamlygu, eu meithrin a'u rhannu, a lle y mae gan gymunedau ledled Cymru y cyfle i fwynhau a chymryd rhan yn y nodweddion gorau sydd gan ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol i'w cynnig. Y mae'n weledigaeth o uchelgais a dyfalbarhad; un sy'n gweddu i wlad lle y mae cefnogaeth i'r celfyddydau creadigol a mynegiannol yn greiddiol i'w hunaniaeth.

Cymeradwywn y cynigion a gyhoeddwn heddiw.

Gyda dymuniadau gorau

Dai Smith
Cadeirydd

Nick Capaldi
Prif Weithredwr

23 Medi 2015

# Creu: Cyrraedd: Cynnal
## dyfodol y celfyddydau yng Nghymru

### Rydym yn uchelgeisiol ynghylch y celfyddydau yng Nghymru.

Mae ein dull o weithredu wedi'i grynhoi yn nhri gair ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau, *Ysbrydoli*: **Creu: Cyrraedd: Cynnal**.

Mae creu celfyddyd, sicrhau ei fod yn cysylltu a rhoi iddo waddol gwydn oll yn rhan o'r un darlun. Pan soniwn am **Greu**, cyfeirio'r ydym at greu yn artistig. Rydym eisiau meithrin amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol er mwyn iddynt allu creu eu gwaith gorau. Oherwydd os ydym yn **Creu** yn dda, rydym yn ysbrydoli.

Ac os ydym yn ysbrydoli, bydd pobl yn ei ddeall. Bydd pobl ei eisiau ac yn ei werthfawrogi.

Felly mae'n rhaid inni ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau a chymryd rhan yn y nodweddion gorau sydd gan ein cenedl i'w cynnig. Oherwydd credwn fod y profiad celfyddydol yn digwydd pan y caiff y tant hwnnw ei daro – pan fo'r hyn a grëir yn creu cyswllt. Mae hyn yn greiddiol i'n gallu i **Gyrraedd**, ac, yn hanfodol, cyrraedd yn bellach nag o'r blaen. A phe caiff rhywbeth o werth ei greu wrth wneud hynny o ran yr hyn a grëir neu'r rhai a gofleidir, dylem ofyn sut rydym yn diogelu ac yn **Cynnal** y rhain mewn ffyrdd a fydd yn para.

### Cefnogwn ansawdd a rhagoriaeth.

Mae gennym gyfrifoldeb i ddefnyddio arian cyhoeddus yn dda. Felly rydym yn canolbwyntio buddsoddiad ar elfennau teilwng ac eithriadol – y sefydliadau hynny sydd yn gryf a chynaliadwy ac sy'n deall sut mae'r hyn a wnânt yn cyfrannu at les pobl Cymru.

Ystyriwn fod y canlynol yn benodol o bwysig:

- creu gwaith – disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn ymgeisio at y safonau uchaf o arloesi a rhagoriaeth artistig, gan gynnig cyfleoedd newydd i greu, arddangos a hybu gweithgarwch sy'n ysbrydoli, sy'n gyffrous ac sy'n argyhoeddi

- ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyfranogiad y cyhoedd – disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn ymestyn allan ac ymgysylltu â'r gynulleidfa ehangaf posibl, gan fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ffyrdd dychmygus ac egnïol

- economi'r celfyddydau a thwf – disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn fod yn ddyfeisgar ac entrepreneuraidd, yn agored i gydweithio a gweithio, a chreu cyfleoedd gwaith newydd yn y celfyddydau

- llywodraethu, rheoli a chyllid – disgwyliwn fod y sefydliadau a ariannwn yn cael eu rheoli'n dda, yn flaengar ac yn gweithredu fel busnes, ac yn gwbl ymrwymedig i sicrhau gwerth am arian yn gyfnewid am yr arian cyhoeddus a dderbyniant

## Beth a gyflawnwyd ers 2010?

### Yn gyffredinol, mae Mynychiadau ac Ymgyfranogiad wedi cynyddu.

Yn y pum mlynedd ers 2010, bydd rhagor na 19.5 miliwn o fynychwyr a rhagor na 6.9 miliwn o ymgyfranogwyr wedi mwynhau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau a gyflwynir gan aelodau'r portffolio o sefydliadau refeniw.

Ar draws y portffolio yn ei gyfanrwydd, gwelwyd cynnydd o 14.5% yn lefelau mynychiadau rhwng 2010/11 a 2013/14, a gwelwyd cynnydd o 17% mewn ymgyfranogiad dros yr un cyfnod.[1] Croesawn yn benodol y cynnydd yn nifer y bobl o gymunedau dan anfantais sydd bellach yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

### Derbyniodd ein cwmnïau cenedlaethol gymeradwyaeth genedlaethol a rhyngwladol am eu perfformiad.

At ei gilydd, llwyddodd ein cwmnïau cenedlaethol i wynebu'r her a osodwyd gennym yn ein Hadolygiad Buddsoddi yn 2010. Codwyd safonau artistig, cynhyrchwyd rhaglenni cyffrous o waith newydd (yn aml mewn lleoedd newydd) a chafwyd cydnabyddiaeth ryngwladol i'w gweithgareddau.

### Mae ein dulliau newydd o ariannu gwyliau wedi gweithio'n dda.

Newid y ffordd yr ydym yn ariannu gwyliau oedd un o'n penderfyniadau mwyaf radical yn Adolygiad Buddsoddi 2010. Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae manteision y dulliau hyn bellach yn amlwg, wrth inni weld rhaglenni cryfach ac ymrwymiad o'r newydd i arloesi ac arbrofi.

### Rhoddodd ein Cronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth hwb sylweddol i gerddoriaeth anghlasurol.

Codwyd proffil genres cerddoriaeth ar wahân i glasurol. Drwy ein hawydd i ehangu ein cwmpas o ymgysylltu, fe'n hysgogwyd i ddod â WOMEX, ffair ryngwladol cerddoriaeth y byd, i Gaerdydd yn 2013. Mae'r llwyddiannau cynnar a brofwyd gan nifer o gerddorion a bandiau a gafodd eu meithrin drwy'r Gronfa yn dystiolaeth bellach o fanteision ein dull o weithredu.

### Mae ein Cynhyrchydd Creadigol ar gyfer Dawns – Coreo Cymru – wedi helpu i annog cynyrchiadau dawns yng Nghymru.

Mewn llai na phum mlynedd, mae Coreo Cymru wedi cychwyn ar 15 o gynyrchiadau a'u cydgynhyrchu. Bu 106 o artistiaid dawns proffesiynol yn ymwneud â'r prosiectau hyn, yn ogystal â hyd at 80 o ddawnswyr cymunedol a 73 o gydweithwyr eraill o ddisgyblaethau artistig eraill. Hefyd, chwaraeodd Coreo Cymru rôl allweddol yng nghais Caerdydd i fod yn gartref i ddigwyddiad pwysig British Dance Edition yn 2016.

---

[1] Data o'r Arolygon Blynyddol o Sefydliadau sy'n Cael Arian Refeniw 2010-15

### Lluniwyd partneriaeth newydd a phwysig gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r celfyddydau ac addysg.

Dyma gyflawniad pwysig, ac un a allai sicrhau newid go iawn yn y modd y mae'r celfyddydau ac addysg yn digwydd yn ysgolion Cymru. Prosiect pum mlynedd gwerth £20 miliwn ydyw, a bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n gyfartal at y costau.

### Rydym wedi datblygu ymagwedd mwy hyderus at dechnoleg ddigidol.

Mae ein cronfa ymchwil a datblygu digidol arloesol – sy'n bartneriaeth â Nesta – wedi helpu i dyfu a datblygu gallu digidol yn y celfyddydau. Rydym yn cynorthwyo cwmnïau celfyddydol a thechnoleg i gydweithio er mwyn arbrofi â gwahanol ddulliau sy'n golygu bod gwaith digidol yn ymwreiddio yn fwy naturiol yn eu harferion creadigol a gweithredol.

### Rydym wedi datblygu perthynas agosach â BBC Cymru Wales ac S4C.

Arweiniodd hyn at gyfleoedd newydd i artistiaid, awduron, cerddorion a chyfarwyddwyr i fanteisio ar fentora, hyfforddiant a'r defnydd o gyfleusterau ac arbenigedd sydd gan ein darlledwyr i'w cynnig, a chydweithio mewn digwyddiadau cenedlaethol fel Dylan Thomas 100.

### Rydym wedi ailfywiogi ein hagenda Cydraddoldeb.

Un o ganlyniadau llai cadarnhaol ein Hadolygiad Buddsoddi yn 2010 oedd mai dim ond un sefydliad a arweinid gan Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a oedd wedi'i gynnwys yn ein portffolio o sefydliadau refeniw. Cyn Adolygiad 2010, roeddem yn ariannu tri sefydliad felly.

Cytunodd y Cyngor i sefydlu cyllideb strategol, *Camau Creadigol*, i feithrin a datblygu gweithgarwch newydd i annog artistiaid sy'n ddiwylliannol amrywiol. Bum mlynedd yn ddiweddarach, un o ganlyniadau'r cymorth hwn yw bod sefydliad newydd, Jukebox Collective, yn ymgeisio i fod yn aelod o'r portffolio newydd yn 2015.

Yn ychwanegol, rhoesom nifer o fentrau Cydraddoldeb ar waith ers 2010, gan gynnwys:

- rhaglen *Heb Ffiniau* – sy'n cynnig comisiynau i artistiaid anabl
- *Hynt*, y cynllun cenedlaethol sy'n galluogi mynediad haws i bobl anabl a'u gofalwyr i leoliadau celfyddydol yng Nghymru
- *Arweiniad Cydraddoldeb*, adnoddu gwybodaeth cynhwysfawr i helpu sefydliadau i ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u harferion
- cyllid ar gyfer digwyddiadau arbenigol megis *Gŵyl Undod* (gŵyl ryngwladol i arddangos gwaith artistiaid anabl rhyngwladol) a *Gwanwyn* (gŵyl y celfyddydau i greadigrwydd pobl hŷn)
- partneriaeth â Sefydliad Baring i gynorthwyo gweithgarwch mewn Cartrefi Gofal

Drwy ein rhaglen Creu Cymunedau Cyfoes, rhoddwyd cynnig ar ffyrdd newydd i annog ymgysylltiad cymunedol mewn cymdogaethau lleol.

Cafodd y celfyddydau eu hymwreiddio mewn prosiectau adfywio arloesol fel ffordd i alluogi cymunedau lleol i ymwneud yn fwy uniongyrchol yn y gwaith o ailddychmygu eu hardal leol mewn ffyrdd newydd a dychmygus. Ein gobaith yw y bydd hyn yn gwella ansawdd ein hamgylched adeiledig a'n mannau cyhoeddus.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i leihau ei gostau rhedeg ei hun.

Yn dilyn yr Adolygiad Buddsoddi diwethaf, cymhwyswyd yr un disgyblaethau o weddnewid ac adfywio i'n hunain, gan sicrhau bod mwy o'r arian cyhoeddus a roddir i ni yn cael ei wario ar weithgarwch celfyddydol uniongyrchol.

Gwnaethom newidiadau i'n strwythur sefydliadol, gan leihau nifer ein staff o ychydig dros 90 swydd cyfwerth ag amser llawn i 76. Roedd hyn yn adlewyrchu'r pwyslais yr oedem eisiau ei roi ar y meysydd celfyddydol hynny a nodwyd yn flaenoriaeth gennym. Fel rhan o'r broses honno, torrwyd cyfran y cymorth grant a wariwyd gennym ar gostau rhedeg gan 12%.

## Rydym yn eglur ynglŷn â'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni'n awr

- **Gwnawn y penderfyniadau beiddgar yn awr i sicrhau bod cyfle pobl i fwynhau a chymryd rhan yn yr elfennau gorau o'r celfyddydau yn cael ei amddiffyn i'r dyfodol.**
  Gweithredwn i sicrhau bod y celfyddydau yn parhau i ffynnu yng Nghymru. Nid oes arnom ofn gwneud dewisiadau anodd, gwobrwyo llwyddiant a buddsoddi arian lle mae ei angen fwyaf.

- **Hyrwyddwn yr enw da rhyngwladol sydd gan Gymru am ddeinameg, creadigrwydd a rhagoriaeth.**
  Cynorthwywn bortffolio o gwmnïau cenedlaethol ac amrywiaeth o sefydliadau a all gynrychioli'r elfennau gorau hynny o Gymru ar lwyfan byd-eang – nodweddion rhyngwladol o ragoriaeth y mae eu gwaith, serch hynny, â'i wreiddiau yng Nghymru ac yn ymrwymedig i Gymru.

- **Buddsoddwn yn lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y wlad.**
  Cynorthwywn y sefydliadau celfyddydol gorau a mwyaf entrepreneuraidd – sefydliadau o bob math a maint a all dyfu cynulleidfaoedd, denu ymwelwyr, creu cyfleoedd gwaith newydd ar draws y diwydiannau creadigol, a gwneud ein trefi, ein dinasoedd a'n cymunedau yn well lleoedd i fyw a gweithio ynddynt. Y mae'n golygu cynnal ansawdd bywyd, yn ei holl agweddau amrywiol, er budd cenedlaethau'r dyfodol.

- **Gweddnewidiwn y lleoedd hynny lle gall pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau.**
  Mae ein rhaglen Cyfalaf Loteri yn parhau. Dylai adeiladau a fydd yn agor cyn hir, megis Pontio ym Mangor ac Oriel Glynn Vivian yn Abertawe, greu gwaddol y gall cenedlaethau'r dyfodol ei fwynhau. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau nodedig a chroesawgar o ansawdd uchel ar gyfer y celfyddydau.

- **Anogwn ragor o bobl i ddatblygu eu creadigrwydd eu hunain drwy ymgysylltu'n ystyrlon â'r celfyddydau.**
  Rydym eisiau i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol sy'n eu hymestyn a'u hysbrydoli – prosiectau trawsffurfiol a all wneud y celfyddydau yn rhan bwysicach o fywydau bob dydd pobl. Mae ymgyfranogi yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n strategaeth, yn arbennig lle y gallwn ddarparu gweithgarwch sy'n creu cyfleoedd i rai y mae anfantais yn effeithio ar eu bywydau.

- **Rydym yn ymrwymedig i sicrhau gwerth am arian.**
  Canolbwyntiwn ein buddsoddiad ar gyflenwi 'rheng flaen', gan ddyrannu cymaint ag y gallwn i'r celfyddydau yn uniongyrchol. Gofynnwn am ddulliau cyflawni sy'n fwy cost-effeithiol – gan gynnwys gennym ni ein hunain – gan annog sefydliadau i gydweithio a rhannu adnoddau a gwasanaethau.

# Gwneud ein penderfyniadau

## Buom yn gyson drwy gydol y broses.

O gychwyn cyntaf proses yr Adolygiad Buddsoddi, dywedom y byddem yn:

* drwyadl – byddai pob cais yn cael ei asesu'n ofalus a manwl
* teg – byddai pob sefydliad yn cael ei drin yn gyfartal. Byddai'r asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth
* cyson – byddai'r un prosesau asesu a phenderfynu yn cael eu defnyddio ar gyfer pob sefydliad
* strategol – byddai ein penderfyniadau yn cael eu cyfarwyddo gan anghenion y celfyddydau ledled Cymru, a chan ein gweledigaeth ar gyfer eu dyfodol
* tryloyw – byddem yn esbonio ein penderfyniadau. I'ch helpu i ddeall y ffactorau a ddylanwadodd ar y penderfyniad ynglŷn â'ch sefydliad, darparwn ein hasesiad o'ch cais a chopi o bapur penderfyniad y Cyngor (y ddogfen hon)

Gofynnom i'n harchwilwyr mewnol annibynnol i archwilio'r broses. Cynhaliwyd tri adolygiad ar wahanol adegau dros y flwyddyn ddiwethaf gan ein helpu i sicrhau y cafodd proses yr Adolygiad Buddsoddi ei dilyn yn gywir a chyson.

## Mae nifer o ffactorau wedi ein helpu i wneud ein penderfyniadau

Mae'r cais – a'n hasesiad ohono – wedi rhoi inni'r wybodaeth hanfodol a fu'n sail i'n penderfyniad. Rydym hefyd wedi ystyried amrywiaeth o ddeunyddiau a thystiolaeth eraill. (Rhestrwyd y rhain yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad Buddsoddi.)

Bu'n rhaid inni weld y tu hwnt i'r ceisiadau a luniwyd yn ofalus a'r eiriolaeth groyw. Mae cais cymwys a hanes cadarn o lwyddiant yn fan cychwyn da, ond ni fyddai'r rhain ynddynt eu hunain wedi ein hargyhoeddi. Ein tasg fu gweld y darlun hirdymor, gan ystyried anghenion y celfyddydau ledled Cymru a llunio barn strategol ynghylch y gweithgarwch y credwn sy'n haeddu ein cymorth fwyaf a sut orau i ddarparu ar eu cyfer. Dyma a wnaethom.

## Cwmnïau cenedlaethol: testun dathlu ar y llwyfan byd-eang, wedi ymwreiddio yng Nghymru

### Mae arnom angen cwmnïau cenedlaethol cryf â chanddynt weledigaeth, sy'n adlewyrchu'n dda ar enw da Cymru am fod yn greadigol.

Rydym eisiau carfan o gwmnïau cenedlaethol y gall pobl Cymru deimlo'n falch ohonynt. Mae sefydliadau cenedlaethol yn bwysig. Maent yn bwysig ynddynt eu hunain am ansawdd y gwaith a gynhyrchant. Ond y maent hefyd yn bwysig am eu harwyddocâd. Mae cwmnïau cenedlaethol yn aml yn arwydd o bethau eraill – hyder diwylliannol cenedl, ffon fesur ar gyfer cryfder a bywiogrwydd celfyddydau gwlad, parodrwydd llywodraethau i ddangos ymrwymiad drwy faint eu buddsoddiad.

### Rydym eisiau i'n cwmnïau cenedlaethol feddu ar enw da yn rhyngwladol.

Ystyriwn fod hyn yn fater sylfaenol. Ansawdd y gwaith sy'n cyfrif a byddwn yn ddyfal wrth fynnu y dylai cwmnïau cenedlaethol ddyheu i fod ar eu gorau posibl. Ond rydym hefyd eisiau iddynt feddu ar weledigaeth glir o'r hyn y mae'n golygu i fod yn 'genedlaethol' mewn perthynas â'r wlad y maent yn ei chynrychioli. Y mae'n rhaid i'r genhadaeth hon fod yn gymesur â maint y cwmnïau a'u statws yn sector y celfyddydau yng Nghymru.

Os ydym eisiau cwmnïau cenedlaethol o'r radd flaenaf, cydnabyddwn fod yn rhaid inni fuddsoddi yn unol â hynny. Ond bydd maint y buddsoddiad hwn hefyd yn golygu bod gofyn i'n cwmnïau cenedlaethol gwmpasu'r amrywiaeth lawn o weithgarwch, o waith cenedlaethol i waith sy'n llwyr yng Nghymru.

### Rydym eisiau gweld y cwmnïau cenedlaethol yn arloesi ymagweddau at ddatblygu'r celfyddydau sy'n manteisio ar eu cryfder, eu hadnoddau a'u harbenigedd.

Yn ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau, *Ysbrydoli*, cyfeiriwn at ddull unedig. Y mae hyn ar ei bwysicaf yn y bartneriaeth rhwng ein cwmnïau cenedlaethol a'r sector y maent yn rhan ohono.

Disgwyliwn i'n cwmnïau cenedlaethol arwain. Ond os yw'n cwmnïau cenedlaethol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd diwylliannol Cymru, gwnânt hynny am eu bod yn cynrychioli uchafbwynt o ran ymdrech greadigol a gaiff ei hybu wrth iddynt ryngweithio ag amrywiaeth eang o ddoniau a syniadau eraill "a wnaed yng Nghymru". Ond disgwyliwn hefyd iddynt fod yn hael a chydweithredol, yn agored i ffyrdd newydd o weithio sy'n rhoi esiampl o sut i gydweithio a rhannu yn llwyddiannus – gan annog partneriaethau cydweithio a chreadigol, ynghyd â lleihau costau sefydlog drwy gydweithio'n agosach.

Byddwn yn gofyn i bob cwmni cenedlaethol lunio cynigion penodol i ddatblygu eu sectorau, a bydd hynny'n ofynnol er mwyn derbyn cymorth gennym i'r dyfodol.

| Y mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn ein 'portffolio' newydd: |
|---|
| Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC<br>Llenyddiaeth Cymru<br>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru<br>National Theatre Wales<br>Theatr Genedlaethol Cymru<br>Opera Cenedlaethol Cymru<br>Canolfan Mileniwm Cymru |
| Byddwn yn parhau i ddirprwyo cyllid loteri i Ffilm Cymru fel yr asiantaeth genedlaethol ar gyfer datblygu a chynhyrchu ffilm. |

## Cymryd rhan yn y celfyddydau: datblygu creadigrwydd unigol

Bu ymestyn allan ac ymgysylltu â phobl drwy ymarfer celfyddydau yn seiliedig yn y gymuned yn sylfaen i waith Cyngor Celfyddydau Cymru ers degawdau.

Mae annog pobl – rhagor o bobl, a phobl wahanol – i fwynhau a chymryd rhan yn gymaint o flaenoriaeth heddiw ac y bu erioed. Ond rydym bellach yn disgwyl mwy.

Gwyddom fod cymunedau bywiog a chynaliadwy yn seiliedig ar gymdogaeth a lle. Maent yn ymwneud â materion bob dydd ynghylch ysbryd, diogelwch, iechyd ac addysg yn y gymuned – y llinynnau sy'n clymu pobl a chymunedau ynghyd. Ond maent hefyd yn ymwneud â mwynhad, lles a chynhwysiant – bod yn rhan o'r gymuned, nid ar wahân iddi. Mae cymryd rhan yn y celfyddydau yn grymuso pobl i ymgysylltu â'r bywyd diwylliannol sydd o'u cwmpas. Dyma'r tir y disgwyliwn i'n sefydliadau celfyddydau cymunedol ei archwilio.

Efallai mai'r man cychwyn yn unig yw cymryd rhan, ond ein nod yn awr yw annog pobl i ymwneud mewn ffordd mwy ymgysylltiedig a chreadigol.

Yn y gorffennol, roedd ymgyfranogi o gelfyddydau cymunedol yn aml yn cymysgu rhwng gwneud pethau ar ran pobl a gwneud pethau i bobl. Heddiw, mae pobl eisiau rhannu, creu a chyfrannu. Cawn ein gwahodd i feddwl, cynllunio a gweithio gyda phobl yn hytrach na gweithio ar eu cyfer neu ar eu rhan.

Felly'n wir, rydym eisiau annog cymaint o bobl â phosibl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Ond nid yw hynny'n unig yn golygu amddiffyn a gwarchod yr hyn sydd eisoes yn bodoli. Rydym eisiau gweld y celfyddydau yn ymgyrraedd yn ehangach – mewn ffyrdd newydd ac mewn lleoedd newydd – at bobl a brofodd rwystrau i fynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau yn flaenorol.

Mae gennym ddiffiniad clir o gelfyddydau cymunedol, a fynegwyd yn *Ysbrydoli*:

> "…caiff yr ymarfer cymunedol gorau ei nodweddu gan newid, awduraeth a pherchnogaeth – gwaith sy'n unigryw, yn ddilys, yn calonogi ac yn gweddnewid."

Dyma waith sy'n targedu'r rhai anoddaf i ymgysylltu â hwy, ar anoddaf i'w cyrraedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig; gwaith sy'n arwain at weddnewid go iawn i ymgyfranogwyr unigol ac i gymunedau.

Mae mynediad i'r celfyddydau yn dal i fod yn rhyfeddol o anghyfartal am bob math o resymau cymdeithasol, economaidd, daearyddol ac ariannol a rhwystrau eraill.

Rydym yn ymrwymedig i gyrraedd amrywiaeth ehangach o artistiaid a chymunedau – rydym eisiau i ragor o bobl yng Nghymru allu dewis gwneud y celfyddydau yn rhan o'u bywydau.

Mae ansawdd a rhagoriaeth cyn bwysiced i gelfyddydau cymunedol ag i unrhyw faes arall o'n gwaith.

Dysgom fod gan y sefydliadau celfyddydau cymunedol mwyaf effeithiol ddawn am ganfod yr atebion cywir i anghenion penodol unigolyn neu gymuned. Maent yn hyblyg ac ysgafndroed, ac yn aml yn gweithredu â thîm craidd bach. Cânt eu harwain gan reolwr rhaglen/prosiect effeithiol a phrofiadol, a bydd ganddynt gryfderau ym maes adeiladu partneriaeth a pherthynas, ac yn ymwneud yn y celfyddydau ar lawr gwlad.

Mae nifer o'r ceisiadau a dderbyniom yn adlewyrchu agweddau ar ymarfer seiliedig yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar gelfyddydau sy'n ddiwylliannol amrywiol, y celfyddydau ac iechyd, a chelfyddydau i bobl anabl.

Ym mhob un o'r achosion hyn, rydym wedi edrych yn ofalus ar sut y caiff y celfyddydau eu defnyddio. Rydym bob amser wedi dweud yn glir, os na chaiff gweithgaredd ei yrru gan gelfyddyd, ffurf ar wasanaeth cymdeithasol ydyw, neu ddatblygu cymunedol. Does dim o'i le ar hynny – ond byddai gweithgaredd o'r fath yn llai o flaenoriaeth i dderbyn cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae therapïau'r celfyddydau yn ffordd i ddefnyddio'r celfyddydau – cerddoriaeth, celf, dawns neu ddrama er enghraifft – i helpu pobl i'w mynegi eu hunain drwy greu rhywbeth, fel darn o gerddoriaeth, paentiad neu ddrama. Fel ffurf ar seicotherapi, caiff y celfyddydau eu defnyddio yn fodd i hunan-fynegi a chyfathrebu. Felly, i ni, mae'r celfyddydau yn ddiben ynddynt eu hunain yn gymaint ag ydynt yn gyfrwng i gyrraedd y diben hwnnw.

Yn yr achosion hynny lle mae'r celfyddydau yn elfen annibynnol, heb fod yn elfen bennaf yng ngweithgareddau ehangach y sefydliad, byddwn yn ystyried ffyrdd amgen i gynorthwyo'r gweithgarwch hwnnw.

Y mae'n bosibl y gall cymorth Loteri wedi'i dargedu, ynghlwm wrth ganlyniadau penodol yn y celfyddydau, fod yn ffordd mwy priodol i ariannu'r sefydliadau hyn yn y dyfodol. Caiff cyllid refeniw ei ganolbwyntio ar y sefydliadau hynny sy'n cyflwyno rhaglen blwyddyn gron o weithgarwch wedi'i arwain gan y celfyddydau.

| Y mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn ein 'portffolio' newydd: | |
|---|---|
| Artis Cymuned<br>Arts Alive<br>Gofal Celf<br>Cyswllt Celf<br>Cerdd Gymunedol Cymru<br>Dawns i Bawb<br>Celfyddydau Anabledd Cymru<br>Celf ar y Blaen<br>Hijinx | Jukebox Collective<br>Dawns NEW<br>Dawns Powys<br>Dawns Rubicon<br>Theatr Felinfach<br>Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro<br>Plant y Cymoedd<br>CBAC (Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru) |

# Lleoliadau perfformio'r celfyddydau: canolfannau creadigol mewn cymunedau lleol

## Mae gan Gymru rwydwaith pwysig o adeiladau'r celfyddydau.

O'r mwyaf i'r lleiaf, dyma'r 'nodau ar y map' yn eu hardal, gan greu cyswllt â rhwydwaith ledled y wlad, a hybu'r celfyddydau yn fyw drwy Gymru ben baladr. Yn gyffredinol, mae taeniad daearyddol y canolfannau yn dda, yn arbennig os ydym yn cynnwys y theatrau a'r canolfannau celfyddydol hynny nad ydynt yn derbyn cyllid refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru, a'r hyrwyddwyr cymunedol hynny a gynorthwyir gan ein cynllun *Noson Allan*.

Mae artistiaid, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr oll yn elwa o allu defnyddio mannau creadigol lle y gallant fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol. Ond i rai canolfannau, mae'r ymdrech ddyddiol o gadw'r drysau ar agor mewn perygl o fod yn nod ynddo'i hun. Mae'r canolfannau hyn hefyd yn ddibynnol ar b'un a oes gweithiau o faint ac ansawdd priodol ar gael. Heb gynnwys, nid oes bywyd i adeiladau – bydd p'un a oes gwaith ar gael, a natur y gwaith, yn effeithio'n uniongyrchol ar lwyddiant neu fethiant y ganolfan.

## Gall hyn weithiau achosi tensiynau rhwng hyrwyddwyr a chynhyrchwyr.

Gall canolfannau gael eu cyhuddo o fod ag ofn risg a pheidio â derbyn cynnyrch teithiol newydd am fwy nag un noson. A chaiff y cynhyrchwyr weithiau eu beio am greu gwaith heriol neu amherthnasol nad yw'n denu cynulleidfaoedd lleol nac yn ateb eu galw am brofiad theatr o safon uchel, ac isel ei risg.

Dangosodd ein cynhyrchwyr sy'n seiliedig mewn adeilad (Clwyd Theatr Cymru, Torch a Sherman) y gall cynnyrch o ansawdd da fod yn boblogaidd <u>a</u> chael ei gynnal am gyfnod hwy. Ond gellid dadlau bod ganddynt fwy o reolaeth uniongyrchol dros yr hyn a gaiff ei lwyfannu ganddynt. Gallant hefyd, dros gyfnod hwy, greu'r momentwm sy'n annog cynulleidfa i adeiladu a thyfu. I lawer o ganolfannau a chynhyrchwyr, un dyddiad yn unig yw perfformiadau mewn cyfres o nosweithiau untro.

## Fel ffordd i gywiro hynny, efallai, roedd y ceisiadau i'n Hadolygiad Buddsoddi yn cynnwys amrywiaeth o fentrau a luniwyd i wrthweithio'r canfyddiad o ddiffyg cynnyrch.

Gwelwn ragor o achosion o ganolfannau yn cydweithio â chynhyrchwyr i gomisiynu gwaith a fydd yn teithio ar hyd rhwydwaith o ganolfannau. Mae rhai canolfannau hyd yn oed sôn am ddatblygu mwy o allu eu hunain i gynhyrchu (gyda'r holl gostau cysylltiedig fyddai ynghlwm wrth hynny). Ar yr wyneb, y mae hyn yn cynnig manteision. Ond mae angen inni fod yn siŵr nad yw galluogi cynhyrchwyr newydd i ddod i'r farchnad yn golygu dadsefydlogi seilwaith cynhyrchu a ddatblygwyd dros ddegawdau (yn aml gyda buddsoddiad sylweddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru).

Byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach gyda'r sefydliadau perthnasol. Mae angen dadansoddi unrhyw gynnig newydd i greu cyfleusterau cynhyrchu newydd yn fanwl a

gwrthrychol. Mae angen inni sicrhau ein bod yn creu'r gwerth uchaf posibl o'r strwythurau presennol o ran cynhyrchu a theithio cyn inni brysuro i gyflwyno cyfleusterau newydd.

Mae gennym ddarlun clir o'r priodoleddau y disgwyliwn eu gweld gan ganolfannau sy'n derbyn cyllid refeniw.

Y mae nifer helaeth o ganolfannau a neuaddau ble y gellid cynnal perfformiad neu arddangosiad neu ddangos ffilm. Rydym bob amser yn awyddus i weld hyn yn digwydd. Ond ein blaenoriaeth bennaf fydd y sefydliadau hynny sy'n ymwneud yn weithredol ym mywyd diwylliannol y cymunedau a wasanaethir ganddynt.

Mae hyn yn golygu lefel uchel o reolaeth gan y gymuned leol ym mhob agwedd ar waith y cwmni – edrychwn am sefydliadau sy'n cael eu gwerthfawrogi. Bydd ganddynt lefelau mynychu uchel a byddant yn fyw gan weithgarwch. Byddant yn ofod cymdeithasol yn ogystal a diwylliannol. Bydd y gymuned yn ymwneud yn uniongyrchol ym mhob agwedd ar waith y sefydliad, o lywodraethu i ymgyfranogi yn y rhaglenni o weithgarwch creadigol.

Bydd disgwyl i'r canolfannau refeniw allweddol a gynorthwywn gyflawni rhaglen amrywiol, blwyddyn gron, gyda gweithgarwch proffesiynol o ansawdd yn greiddiol iddi.

Cymerir y bydd lefelau uchel o fynychiadau ac ymgyfranogiad. Ond byddant hefyd yn dangos lefel uchel o arweinyddiaeth ddiwylliannol, gan fod yn agored a hael o ran defnyddio adnoddau, cyfleusterau ac arbenigedd y sefydliad i gynorthwyo prosiectau neu fentrau sy'n meithrin a datblygu doniau sy'n seiliedig yng Nghymru.

Ni fydd y fath gynnig uchelgeisiol o ddisgwyliadau yn bosibl, nac yn wir yn gynaliadwy, ym mhob ardal leol.

Byddwn felly yn canolbwyntio ar ardaloedd o anghenion wedi'u diffinio'n glir a'n blaenoriaeth fydd darparu mynediad i'r celfyddydau ym mhrif ganolfannau poblogaeth Cymru. Nod ag iddo'r un lefel o flaenoriaeth fydd creu cyfleoedd yn yr ardaloedd hynny sydd heb eu gwasanaethu cystal o ran gweithgarwch celfyddydol (hynny yw, heb fod yn agos i sefydliad tebyg arall).

| Y mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn ein 'portffolio' newydd: | |
|---|---|
| Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth<br>Sefydliad y Glowyr, y Coed Duon<br>Chapter<br>Galeri<br>Hafren<br>Canolfan y Celfyddydau, Pontardawe<br>Pontio | Theatrau RhCT<br>Glan yr Afon, Casnewydd<br>Canolfan Celfyddydau Taliesin<br>Theatr Brycheiniog<br>Theatr Mwldan<br>Ucheldre<br>Neuadd Les, Ystradgynlais |

# Manteisio ar botensial cynyrchiadau theatr a dawns

## Yn 2010, rhoesom gychwyn ar nifer o newidiadau i'r ffyrdd yr oeddem yn cynorthwyo cynyrchiadau theatr a dawns.

Cydiodd National Theatre Wales – a Theatr Genedlaethol Cymru yn ddiweddarach – yn nychymyg y cyhoedd gydag ymagweddau newydd ac arloesol at theatr (yn arbennig yn eu gwaith safle-benodol), a chynigodd *y Gromen Ddawns*, Coreo Cymru, ffordd cwbl wahanol i brofi dawns wedi'i ffilmio.

Cyflwynwyd newidiadau sylweddol gennym yn y ffyrdd yr ydym yn cynorthwyo'r sector Theatr Mewn Addysg. Yn ogystal, rhoesom y gorau i ariannu taith gymunedol Hijinx, a bu i hynny gymell y cwmni i ddilyn strategaeth mwy penodol o ddatblygu gwaith gydag actorion sydd ag anableddau dysgu. Roedd yn ymddangos bod gwaith cynhyrchu dawns yn ddarniog ac yn tanberfformio, a theimlai'r cwmni cenedlaethol yn ddieithr ac ar wahân, a bod angen ei ddiwygio. Ym mhob un o'r meysydd hyn, teimlwn y gwnaed cynnydd amlwg.

## Mae gwaith safle-benodol wedi ailddiffinio'r mannau lle y gall cynulleidfaoedd ddod i gyswllt â'r celfyddydau.

Llwyddodd digwyddiadau cyhoeddus ar raddfa fawr, megis *Passion*, National Theatre Wales, ac *Adain Avion* gan Marc Rees, i gyrraedd cynulleidfaoedd mawr, a llawer ohonynt heb brofi'r celfyddydau yn flaenorol. Ac mae amrywiaeth o gerddorion, dawnswyr, awduron a chyfarwyddwyr yn mwynhau'r synnwyr o unigrywiaeth a syndod y gall mannau perfformio newydd ac anhraddodiadol ei gynnig.

Boed ar raddfa fawr neu fach, gall gwaith safle-benodol greu profiadau unigryw a chofiadwy. Cyhyd â bod y gwaith hwn ar gael yn eang a hawdd – a rhaid iddo fod i dderbyn arian cyhoeddus – bydd yn parhau i fod â chyfraniad pwysig i'w wneud i alluogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu â'r celfyddydau perfformio.

## Ers 2010, bu'r cwmnïau Theatr Mewn Addysg blaenorol yn cyfeirio eu hymdrechion mewn ffyrdd gwahanol.

Llaciwyd y gofynion i'r cwmnïau hyn greu cynyrchiadau yn seiliedig mewn ysgolion, gan ffafrio agor y farchnad.

Disgwyliwn i bob sefydliad refeniw gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a rhown gryn bwys ar waith gyda phlant a phobl ifanc. Nid oes angen inni fod yn fwy penodol na hynny. Yn hytrach, disgwyliwn i'n cwmnïau cynhyrchu greu'r theatr orau a mwyaf diddorol posibl. Rydym eisiau osgoi unrhyw hollt artiffisial, er enghraifft, rhwng Theatr a Theatr i Gynulleidfaoedd Ifanc, lle na ddylai fod hollt. Mae'n bryd troi'r ddalen, gyda phob un o'r cwmnïau yn teimlo y gallant fanteisio ar eu cryfderau – er enghraifft, theatr i blant a chynulleidfaoedd teuluol – ond ni ddylid eu cyfyngu gan hyn. A gorau oll os oes modd datblygu partneriaethau newydd sy'n ymestyn amrywiaeth theatr o ansawdd uchel.

Arferid dweud bod y model o gynhyrchu theatr, yn seiliedig mewn adeilad, gyda chast ensemble, yn ei hanfod yn aneffeithlon.

Ymarfer, creu setiau a gwisgoedd, perfformio'r ddrama am bythefnos ac wedyn taflu'r cyfan a chychwyn eto. Y dyddiau hyn, mae'r prosesau yn fwy effeithlon. Mae cydgynyrchiadau yn fwy cyffredin, a gwelwn ragor o achosion o waith yn mynd ar daith yn dilyn ei gyfnod o berfformiadau yn y theatr gartref. Ond a ydym yn gweld digon o hyn?  Y mae potensial inni gael llawer mwy o werth o'r asedau sydd ynghlwm wrth ein cynhyrchwyr theatr sy'n seiliedig mewn adeilad (Sherman Cymru, Clwyd Theatr Cymru a Theatr Torch). Gallai'r hyn sy'n gweithio'n dda yn yr Wyddgrug hefyd weithio'n dda yn Aberdaugleddau. Mae'n rhaid i fwy o gydweithio fod yn un o ganlyniadau allweddol yr Adolygiad Buddsoddi.

Gall teithio fod yr un mor heriol.

Mae'r cwmnïau cynhyrchu hynny sy'n teithio yn ei chael yn fwyfwy anodd gweithio mewn model economaidd sy'n golygu eu bod yn dadlwytho cynhyrchiad mewn tref newydd bob dydd cyn ei roi heibio drachefn, heb lawer o gyfle i ddatblygu cynulleidfa ym mhob lle, os o gwbl.

Nid yw cydgynhyrchu heb ei risg, a bydd bob amser yn golygu colli rhywfaint o sofraniaeth artistig. Felly deallwn awydd cynhyrchwyr i ddatblygu eu harddull nodedig eu hunain o weithio. Bydd marchnata weithiau yn ddi-ddal, a bydd cynhyrchwyr yn adrodd ar ganlyniadau cymysg gan reolwyr canolfannau, yn arbennig lle y bo hynny'n ymwneud â gwaith y canolfannau o hyrwyddo dawns a gwaith yn y Gymraeg.

Y mae'n amlwg bod angen gweithio'n agosach mewn partneriaeth greadigol.

Mae'r cwmnïau cynhyrchu yn gyfarwydd â'u gwaith; mae'r canolfannau yn gyfarwydd a'u cynulleidfaoedd. Pan ddaw'r ddau ynghyd, mae'r hyn a geir yn llawer mwy tebygol o fod yn llwyddiannus ym marn cynulleidfaoedd, ac yn fwy boddhaol i bawb yn artistig. Mae angen i reolwyr canolfannau a chynhyrchwyr gwaith gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am dyfu cynulleidfaoedd. Ac mae angen i Gyngor Celfyddydau Cymru eu hannog i wneud hyn yn well.

<table>
<tr><th colspan="2">Y mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn ein 'portffolio' newydd:</th></tr>
<tr><td colspan="2">Clwyd Theatr Cymru<br>Sherman Cymru<br>Theatr Torch</td></tr>
<tr><td>Arad Goch<br>Ballet Cymru<br>Theatr i Bobl Ifanc, Clwyd Theatr Cymru<br>Cwmni'r Frân Wen<br>NoFit State</td><td>Theatr Bara Caws<br>Theatr Iolo<br>Theatr na n'Óg<br>Volcano</td></tr>
</table>

## Gwerthfawrogi'r amrywiaeth lawn o gerddoriaeth

### Ceir llawer o genres o gerddoriaeth.

Y mae'n cwmpasu diwydiant masnachol, creu cerddoriaeth o ansawdd uchel a phroffesiynol yn ei holl ffurfiau, amrywiaeth o weithgarwch amatur, a cherddoriaeth sy'n gynrychioliadol o gymunedau mwy amrywiol. Yn ychwanegol at hyn, ceir gallu cynyddol technoleg ddigidol i greu a dosbarthu gwaith, gan olygu bod gennym sector sionc ac ystwyth sy'n symud yn gyflym.

### Mae gan Gymru gyfoeth rhyfeddol ym maes opera a theatr cerdd.

Y mae gennym bopeth o sioeau cerdd y llwyfannau mawr, i opera fawreddog, ac o opera gyfoes i deithiau ar raddfa lai. Dyma amrywiaeth unigryw o weithgarwch a fyddai'n destun eiddigedd i lawer o wledydd eraill.

Ond y mae cynnal y lefel hon o weithgarwch yn heriol.

Nid peth rhad yw cynorthwyo opera, ac mae ein buddsoddiad presennol yn y ffurf hon ar gelfyddyd eisoes yn gyfran sylweddol o gyllideb y sefydliadau refeniw. Wrth ystyried ei strategaeth ariannol, cytunodd y Cyngor na all ddyrannu cyfran <u>fwy</u> o'r arian sydd ar gael i opera, felly allweddol yw gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol. Y mae'n faes sy'n addas iawn i greu partneriaethau a chydweithio. A chyda chynulleidfaoedd cenedlaethol opera yn ddisymud, byddai rhyw ffurf ar gydweithio neu gyswllt rhwng darparwyr opera cyllid refeniw Cymru yn siŵr o gryfhau 'brand' opera Cymru, gan eu hannog i gydweithio a gwneud gwell defnydd o adnoddau. Rydym yn edrych ar i Opera Cenedlaethol Cymru arwain wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

### Roedd Sinfonia Cymru a Chanolfan Gerdd William Mathias yn ychwanegiadau newydd i'r portffolio o sefydliadau refeniw yn 2010.

Maent wedi datblygu rhaglenni cryf a thrawiadol o waith, gan gyfiawnhau'r penderfyniad a wnaed bum mlynedd yn ôl. Disgwyliwn eu gweld yn parhau i ddatblygu cyrhaeddiad eu gweithgareddau yn y modd entrepreneuraidd a dychmygus y maent wedi'i ddangos hyd yma.

### Mae sefydliadau pwysig eraill yn cyfrannu at fywyd cerddorol yng Nghymru.

Mae gan Gymru lawer o ffurfiau eraill o gerddoriaeth glasurol, gan gynnwys grwpiau siambr ac ensembles, creu cerddoriaeth ar lefel amatur a chymunedol, a gwyliau.

Yn 2010, gwnaed newid mawr gennym i'r ffordd yr ariannwn weithgarwch Gwyliau, gan greu cronfa Loteri arbennig at y diben hwnnw. Roedd hyn yn adlewyrchu ein hawydd i fod â chanolbwynt clir a fyddai'n well o ran cynorthwyo uchelgais artistig a datblygu cynulleidfa. Bydd ein cymorth i wyliau ar ffurf arian Loteri yn parhau.

Cyn 2010, canolbwyntiwyd yr arian ar gerddoriaeth gerddorfaol ac opera fel y ddau faes cerddorol a oedd fwyaf angen cymhorthdal cyhoeddus.

Yr oedd hyn yn anghydbwysedd yr oeddem am ei gywiro. Cronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth – a gyflwynwyd gennym yn 2010 – fu un o'n mentrau pwysicaf, gan ddatblygu cyfleoedd perfformio proffesiynol, buddsoddiad mewn cerddorion a chyfansoddwyr, hyfforddiant a mentora busnes.

Daeth penllanw i'n hymdrechion ar ffurf llwyddiant llwyfannu WOMEX yng Nghaerdydd yn 2013. Un o ganlyniadau WOMEX oedd cynllun *Gorwelion/Horizons* Cyngor Celfyddydau Cymru / BBC Cymru. Gan ganolbwyntio ar artistiaid a bandiau sy'n seiliedig yng Nghymru ac sy'n ysgrifennu, cynhyrchu a pherfformio cerddoriaeth boblogaidd gyfoes, mae llwyddiant y cynllun wedi mynd y tu hwnt i'n disgwyliadau mwyaf uchelgeisiol hyd yn oed.

Credwn mai cam nesaf y datblygiad yw canfod ffordd ymarferol i ddarparu cymorth mwy cyson i ddatblygu cerddoriaeth anghlasurol.

Y cwestiwn a ofynnwyd gennym yn 2010 oedd beth fyddai'n datblygu'r canwr-gyfansoddwr, y bandiau newydd, neu genres roc, pop a threfol ar wahân i gorff sy'n canolbwyntio mwy ar y diwydiant? Y mae'n gwestiwn sy'n parhau'n ddilys yn 2015, a byddwn yn cyhoeddi cynigion i ymgynghori yn eu cylch cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Gallai fod gwerth i ddull ar sail asiantaeth ddatblygu unigol. Yn wir, awgrymwyd y gellid llunio sefydliad a all gynrychioli buddion y diwydiant cerddoriaeth ar draws amrywiaeth o fathau o gerddoriaeth, gan dynnu ar asiantaethau datblygu cerddoriaeth presennol. Nid ydym mor siŵr. Byddai angen inni gael ein hargyhoeddi y gellid creu asiantaeth newydd o elfennau sefydliad, neu sefydliadau, presennol yng Nghymru. Y mae i'r sefydliadau posibl (trac, Tŷ Cerdd, ac o bosibl Cerdd Gymunedol Cymru) oll hunaniaeth, cyfansoddiad a chylch gwaith nodedig. Cynnig gwell allai fod creu menter newydd o'r cychwyn. Caiff y rhain, ac opsiynau eraill, eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig.

Nodwn ar y cam hwn bod rhan o gylch gwaith Tŷ Cerdd – yr ensembles perfformio ieuenctid cenedlaethol – yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Y mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i rannu â CBAC (Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru). Mae'r model yn ddibynnol ar fuddsoddiad sylweddol gan 22 awdurdod lleol y wlad, wedi'i gydlynu drwy CBAC. Y mae'n drefniant sydd o dan bwysau ac mae angen ei ddiwygio. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r materion.

| Y mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn ein 'portffolio' newydd: | |
|---|---|
| Canolfan Gerdd William Mathias<br>Live Music Now Cymru<br>Opera Canolbarth Cymru<br>Theatr Gerdd Cymru | Sinfonia Cymru<br>trac<br>Tŷ Cerdd |

## Cryfhau'r rhwydwaith o gelfyddydau gweledol a chymhwysol cyfoes

### Mae'r rhwydwaith o orielau sy'n cynnig ceisiadau i'r Adolygiad Buddsoddi hwn yn garfan gydlynol o sefydliadau.

Gallwn weld twf yn safle a gallu'r orielau ers yr Adolygiad Buddsoddi diwethaf. Y maent yn datblygu yn unigol ac fel carfan.

Cyflwynir rhaglenni sylweddol o waith gan Oriel Davies, Oriel Gelf Glynn Vivian, Canolfan Grefft Rhuthun, Mostyn, yng Nghanolfannau'r Celfyddydau megis yn Aberystwyth ac yn Chapter. Mae rhaglenni o ansawdd hefyd yn cael eu cyflwyno gan rai o'r lleoliadau sydd ychydig yn llai eu maint, drwy Ffotogallery yn Nhŷ Turner, Oriel Myrddin, Llantarnam Grange a Mission. Ceir tystiolaeth gynyddol o gydweithio hefyd, er enghraifft mewn prosiectau a ddatblygwyd ar y cyd gan Mission a Rhuthun, neu fel a welwyd wrth i Mostyn ac Oriel Davies gyd-gyflwyno gwaith Bedwyr Williams yn *Cymru yn Fenis* yn 2013.

Gellir gweld y momentwm cynyddol y mae'r sector yn ei greu i artistiaid unigol wrth edrych ar y cyswllt sydd rhwng rhaglenni megis Cymru Greadigol (a Llysgenhadon Cymru Greadigol) a pherthynas orielau ag artistiaid dros amser ac ar adegau o bwys yn eu gyrfaoedd. Y mae Rhuthun yn esiampl yn hyn o beth, o fod yn eirioli ar ran gwneuthurwyr Cymru Greadigol a hwyluso elfennau rhyngwladol Llysgenhadon Cymru Greadigol. Mae rhaglen g39, *WARP*, hefyd yn cynorthwyo artistiaid i ddatblygu eu gyrfaoedd a'u hannog i ddatblygu syniadau ac wedyn trosi hynny, ar adegau, i fod yn rhan o raglen o arddangosfeydd.

### Datblygwyd y rhwydwaith o orielau masnachol ymhellach yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Ond y mae diffygion yn parhau yn y sector cyhoeddus/masnachol yng Nghymru ac nid oes unrhyw beth cyfwerth â'r Modern Institute, dyweder, sy'n cynnig rhyngwyneb i artistiaid yr Alban ac sydd â chysylltiadau rhyngwladol.

### Y mae gan Gymru arweinwyr ar lefel y Deyrnas Unedig yn ei horielau sy'n derbyn arian cyhoeddus sydd ag adnabyddiaeth amlwg ymysg eu cymheiriaid.

Mae tri o'n Horielau / sefydliadau'r celfyddydau gweledol yn rhan o rwydwaith PlusTate. Ni fyddent yn rhan o'r rhwydwaith oni bai bod Tate yn ystyried bod eu gwaith ym maes y celfyddydau cyfoes o ansawdd digonol i fod yn rhan ohono.

### Mae'r rhagolygon rhyngwladol ar gyfer sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn datblygu'n dda.

Mae Ffotogallery ar hyn o bryd yn cyflwyno Cymru yn Fenis Wales in Venice, arddangosiad Helen Sears "*...the rest is smoke*". Ac mae ei Gŵyl *Diffusion*, fel *Caerdydd Gyfoes* yn defnyddio'r ddinas a'i lleoliadau i gyflwyno profiadau dros dro i gynulleidfaoedd sydd â'r potensial i fod yn fawr.

Y mae Artes Mundi wedi sicrhau proffil rhyngwladol i'w hun, a hithau, ar ôl chwe chylch o'r arddangosfa eilflwydd, yn denu sylw rhagorol gan y beirniaid fel un o'r arddangosfeydd cyfoes mwyaf perthnasol yn y byd o bosibl ar hyn o bryd.

Mae datblygiad Criw Celf a rhaglenni arloesol eraill o waith addysg (a gyflwynir yn aml gan Engage Cymru, corff sy'n gweithio ym maes addysg y celfyddydau gweledol), yn golygu bod y sector yn teimlo ei fod mewn sefyllfa dda i chwarae ei ran yn y pum mlynedd nesaf wrth helpu i gyflawni'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau ac addysg, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*.

### Y mae agweddau bregus yn y modd y mae'r sector yn cael ei ariannu, a phroblemau gweddilliol ar adegau.

Gwneir i adnoddau cymharol fach fynd ymhell yn y sector hwn, ond y mae'n amlwg bod buddsoddiad i gywiro'r sefyllfa ers yr Adolygiad Buddsoddi diwethaf wedi'i erydu ac mae sector yr orielau yn edrych i ariannu gwaith rhaglennu ychwanegol drwy droi at arian Loteri.

### Yr hyn sy'n drawiadol yw bod y sector yn parhau i "adeiladu".

Y mae gwaith ailddatblygu Glynn Vivian yn tynnu at ei derfyn, ac mae Oriel Myrddin a Mission ar fin cyflawni datblygiadau llai, ond pwysig, a luniwyd yn rhannol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr orielau. Y cam nesaf yn natblygiad Chapter yw ystyried, ymysg pethau eraill, y model mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r diffyg gofod arddangos o ansawdd sydd gan y ganolfan. Y mae Ffotogallery hefyd yn edrych am leoliad mwy addas i ddarparu'r cyfleuster o ansawdd y mae ei waith yn ei haeddu.

| Y mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn ein 'portffolio' newydd: | |
|---|---|
| Artes Mundi<br>Ffotogallery<br>g39<br>Oriel Gelf Glynn Vivian<br>Llantarnam Grange | Oriel Mission<br>Mostyn<br>Oriel Davies<br>Oriel Myrddin<br>Canolfan Grefft Rhuthun |

## Adnabod gwerth – cynorthwyo pob ymgeisydd

### Gyda'i gilydd, mae'r holl geisiadau a gawsom yn cynrychioli adnodd cyfoethog o ddoniau a photensial.

Cawsom ein calonogi gan y cyfoeth o syniadau a gyflwynwyd inni, gan gynnwys gan y rhai nad oedd modd inni eu gwneud yn rhan o'n portffolio arfaethedig. Nid yw hyn yn golygu bod y ceisiadau hyn yn wael. Er nad oedd rhai wedi'u datblygu cystal ag y gallem fod wedi dymuno, yr oedd rhinweddau go iawn i'r rhan fwyaf. Rhaid oedd inni ddewis y rhai y credwn sydd wedi cyflwyno'r achos mwyaf argyhoeddiadol am gymorth.

### Nid ydym yn anwybyddu'r rhai nad ydynt wedi eu cynnwys yn y portffolio.

Mae llawer o'r sefydliadau hyn wedi datblygu eu gwaith drwy fuddsoddi arian Loteri mewn prosiectau penodol. Bydd y cymorth hwn yn parhau i fod ar gael.

Ac yn achos y sefydliadau hynny y mae eu cyllid refeniw presennol yn dod i ben fis Mawrth, rydym wedi sefydlu *Newid*, sef Cronfa Bontio bwrpasol. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i addasu i fodel newydd o weithredu heb gyllid refeniw. Mae amrywiaeth o gymorth ar gael, o gyngor technegol i gymorth ariannol er mwyn ailstrwythuro. Ym mhob achos, gwnawn bopeth a allwn i'w helpu i ganfod ffordd arall i gyfrannu drwy eu gwaith.

### Wedi'r cyfan, nid cyllid refeniw, o anghenraid, yw'r ateb cywir i bawb.

Nid 'gwobr' yw cyllid refeniw. Nid yw chwaith ar frig rhyw fath o hierarchaeth ariannu. Nid gwarant o sicrwydd arian ydyw (rhaid penderfynu ar gyllid refeniw bob blwyddyn, ac yn aml rhaid ei leihau os oes toriadau yng nghyllid y llywodraeth). Mae llawer o sefydliadau yng Nghymru sy'n derbyn cyllid prosiect ar hyn o bryd yn ymgymryd â gwaith sydd yr un mor bwysig â rhai o'n sefydliadau refeniw mwy profiadol, ac mae'n well ganddynt yr hyblygrwydd a ddaw gan gyllid prosiect.

### Mae cyllid refeniw yn golygu amrywiaeth eang o ddisgwyliadau.

Mae'r priodoleddau y disgwyliwn eu gweld mewn sefydliad refeniw wedi'u nodi yn ein dogfen *Ymdrechu i Ragori.* Y sefydliadau refeniw yw'r sefydliadau hynny y teimlwn sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni ar draws amrywiaeth eang o'n blaenoriaethau yn y celfyddydau.

Mae sefydliadau refeniw yn cyfrannu at wneud Cymru yn well lle yn ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, gan:

- hybu synnwyr y genedl o falchder a lles – cyflwyno gwaith sydd yn gofiadwy, yn ysbrydoli ac yn cynnig mwynhad
- hyrwyddo ansawdd a rhagoriaeth – y gorau i'r nifer fwyaf o bobl
- cyflawni blaenoriaethau economaidd – diogelu swyddi, hybu twristiaeth ddiwylliannol, ysgogi gweithgarwch economaidd
- meithrin sgiliau creadigrwydd, crefft a thechnegol
- hybu enw da a delwedd Cymru yn y wlad hon a thramor
- gwneud Cymru yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef

Mae'r sefydliadau refeniw yn adlewyrchu ein blaenoriaethau Cydraddoldeb, gan helpu i wneud Cymru yn decach a mwy cynhwysol drwy:

- gynnig mynediad sefydlog, dibynadwy o ddydd i ddydd i'r celfyddydau ledled Cymru
- mynd i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu – herio tlodi o ran amgylchiadau, cyfleoedd a dyheadau
- ymestyn allan at rai o'r unigolion a'r cymunedau mwyaf difreintiedig
- arwain drwy esiampl – hyrwyddo meysydd newydd o bolisi cyhoeddus neu feysydd sydd heb eu datblygu'n llawn
- annog gweithgarwch a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r sefydliadau refeniw yn cyfrannu yn gyffredinol at amrywiaeth eang o flaenoriaethau dinesig a llywodraethol drwy:

- ein helpu i deimlo'n well amdanom ein hunain
- gwrthwneud pwysau byw yn yr 21ain ganrif – darparu seibiant, myfyrdod a mwynhad yn ein bywydau prysur
- hybu'r arfer o atal ac adfer – dulliau newydd lle mae'r celfyddydau yn arwain at les a byw'n iach

Mae'r sefydliadau refeniw yn helpu i gyflawni canlyniadau addysgol drwy:

- gefnogi dysgu drwy greadigrwydd – gwella cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc
- cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau ledled Cymru
- codi safonau addysg a hyfforddiant, mewn ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch, drwy gynnig sgiliau ac arbenigedd o'r ansawdd uchaf
- harneisio'r grym sydd gan y celfyddydau i drawsnewid er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc 'anodd eu cyrraedd'
- cynnig cyfleoedd hyfforddiant, mentora, interniaethau a phrentisiaethau

### Mae'n well gan lawer yr hyblygrwydd a ddaw drwy gyllid prosiect.

Os mai'r hyn yr ydych ei eisiau mewn gwirionedd yw'r rhyddid i ganolbwyntio ar weithgarwch mwy penodol – neu bod eich gweithgarwch wedi'i ganolbwyntio ar adeg penodol o'r flwyddyn – mae'n annhebygol mai cyllid refeniw fydd fwyaf addas. Credwn fod hyn yn wir yn achos y nifer fach o sefydliadau y bydd eu trefniant cyllid refeniw presennol yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn.

### Ond y mae rhai yn dymuno cymryd y cam nesaf.

Yn ystod ein hasesiad o'r ceisiadau, nodwyd llond dwrn o sefydliadau sy'n dangos gwir addewid, ac awydd i ymgymryd â chyfrifoldebau sefydliad refeniw. Ond y mae'r sefydliadau hyn ar gam yn eu datblygiad lle mae naill ai ganddynt ddiffyg capasiti neu lle nad yw agweddau ar eu gweithgarwch wedi'u datblygu'n ddigonol. Er nad yw statws sefydliad refeniw yn briodol i'r sefydliadau hyn ar yr adeg hon, byddant cyn hir yn gwthio eu hachos ymhellach. Byddwn yn trafod â hwy ynghylch y posibilrwydd o raglen bwrpasol o ddatblygu, wedi'i llunio i gynyddu eu hyder a'u gallu.

## Manteisio ar botensial – sicrhau'r gorau o fuddsoddiad cyhoeddus

### Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod pob £ o fuddsoddiad cyhoeddus yn gweithio'n galed.

Un ffordd i wneud hyn yw annog yr arfer o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Roedd rhai o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod ganddynt syniadau arloesol a allai ymgyrraedd yn bell, yn seiliedig ar berthynas weithio agosach. Mewn rhai achosion, byddwn yn annog partneriaid i ddatblygu eu syniadau ymhellach.

### Ond yn gyffredinol, roeddem yn siomedig ynghylch nifer ac ansawdd y cynigion i gydweithio a dderbyniwyd.

Wrth i arian cyhoeddus barhau i gael ei wasgu, gobeithiem y byddai'r ymgeiswyr yn fwy dychmygus yn eu parodrwydd i ystyried y posibilrwydd i rannu a chydweithio. Nifer cymharol fach a wnaeth hynny.

### Gall cydweithio gynnig manteision creadigol yn ogystal ag ariannol.

Nid gwneud gwell defnydd o arian yn unig yw diben cydweithio, er mor bwysig yw hyn. Mae datblygiad creadigol y genhedlaeth nesaf o artistiaid a chwmnïau yn dibynnu ar weledigaeth a haelioni'r rhai y mae eu safle a'u statws eisoes wedi'u sefydlu.

Mae gennym lawer o sefydliadau a strwythurau diwylliannol mawr yng Nghymru a sector cynyddol o gwmnïau bach sy'n cael eu harwain gan artistiaid a'u cyllido ar sail prosiectau. Disodlwyd hierarchaethau gan rwydweithiau, clystyrau, partneriaethau ag artistiaid – yn arbennig artistiaid ifanc – sy'n gynyddol ddatblygu gyrfaoedd 'portffolio'. Yr hyn sydd ar goll yw'r dolenni sy'n eu clymu oll gyda'i gilydd.

Yn achos y cwmnïau llai, mae llawer o'r heriau yn ddibwys a biwrocratig. Y prif rwystrau i greu gwaith yw amser ac arian, a chyfeiria artistiaid at y rhain drosodd a thro. Gall datblygu strwythurau cyfansoddiadol a threfniadaethol fod yn gostus, gan dynnu sylw oddi ar y broses o greu celfyddyd. Ond heb y sêl bendith a geir o fod yn sefydliad elusennol â chyfansoddiad llawn, ni fydd y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn talu unrhyw sylw.

### Rydym eisiau gweld mwy y dystiolaeth o gydweithio sy'n fuddiol i'r sector yn gyfan.

Mae enghreifftiau pwysig eisoes yn bodoli. Mae rhai sefydliadau yn rhannu safle ac offer. Cydweithiodd MOSTYN ac Oriel Davies i gyflwyno'r artist Bedwyr Williams yn Biennale Venice 2013. Mae llawer o sefydliadau yn cynnig mentora a phrentisiaethau, ac mae partneriaethau eraill yn cynnwys TEAM National Theatre Wales, cynllun *Bydi Dawns* Venue Cymru, *Deorfa* Canolfan Mileniwm Cymru, a rhaglen *Cwmni Cysylltiol* Theatre Iolo. Rydym yn gofyn i'n cwmnïau cenedlaethol wneud mwy. Ond rydym eisiau i enghreifftiau o'r fath ddatblygu i fod yn gyffredin ar draws y sector yn hytrach nag yn eithriad.

Ar y cam hwn yn yr Adolygiad Buddsoddi, ystyriwn bod hyn yn fater anorffenedig.

Felly dyma fater y bwriadwn droi'n ôl ato, a byddwn yn gofyn i sefydliadau ailystyried sut maent yn datblygu cyfleoedd priodol i greu partneriaethau a rhannu adnoddau.

Bydd hyn, efallai, yn galw am fath gwahanol o weledigaeth ac arweinyddiaeth – synnwyr o arweinyddiaeth ddiwylliannol sy'n gweld y bylchau, yn gwneud cysylltiadau ac sydd â'r craffter busnes i droi syniadau da yn gamau ymarferol. Oherwydd pe gallwn wneud hyn, bydd y celfyddydau yng Nghymru yn gryfach a gwytnach.

## Creu'r cyfleoedd i bawb fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau

### Ymestyn allan at gynulleidfaoedd newydd yw un o'n blaenoriaethau pwysicaf.

P'un ai yw rhywun yn mynd i ddigwyddiad neu'n cymryd rhan fel ymgyfranogwr, rydym eisiau ehangu'r amrywiaeth o bobl sy'n ymwneud â mynegiant diwylliannol a chreadigol, yn ei herio ac yn ei ailddyfeisio. Dyma'r hyn sy'n ailfywiogi ein bywyd diwylliannol ac y mae'n arbennig o bwysig wrth ymestyn allan y tu hwnt i'r hyn y gwyddom amdano a'r hyn sy'n gyfarwydd.

Rydym eisiau i gymaint o bobl â phosibl brofi a mwynhau'r celfyddydau: cael eu hysbrydoli gan ddychymyg a chreadigrwydd, eu cyffroi gan uchelgais ac ysblander, a'u hysgogi gan y newydd a'r anghyfarwydd. Rydym eisiau cynyddu ymgyfranogiad a mynychiadau ar draws y celfyddydau yn gyfan – ac mae hyn yn cynnwys y sefydliadau a ariannwn.

### Mae mynediad at y celfyddydau yn dal i fod yn rhyfeddol o anghyfartal am bob math o resymau cymdeithasol, economaidd, daearyddol ac ariannol.

Nid yw hon yn sefyllfa dderbyniol. Ac roeddem yn siomedig bod llawer o'r ceisiadau a dderbyniom yn dangos diffyg uchelgais ac mor swil i fynd i'r afael â melltith anfantais a thlodi cyfleoedd.

Lluniwn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nid am fod hynny'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, ond am y credwn yn y manteision creadigol sydd i wrando ar yr amrywiaeth ehangaf posibl o leisiau diwylliannol. Y mae'n cydnabod bod rhai pobl heb eu trin yn gyfartal am fod ganddynt 'nodweddion gwarchodedig' penodol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

### Mae cymdeithas hael, teg a goddefgar yn gwerthfawrogi a pharchu anghenion, diddordebau a chreadigrwydd ei <u>holl</u> ddinasyddion.

Y mae'n gymdeithas sy'n ddiamynedd ynghylch anfantais, yn cofleidio cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth, lle bynnag y bo. Ac wrth wneud hynny, y mae'n hybu undod o ran diben cymdeithasol oddi mewn i amrywiaeth y diwylliannau sy'n gwneud Cymru gyfoes yn lle bywiog a chyffrous i fod ynddo. Ein gweledigaeth yw sector y celfyddydau sy'n naturiol gynhwysol ac amrywiol, ac yn fwy bywiog, cyffrous a pherthnasol yn sgil hyn.

### Mae Cymru Fodern yn gymdeithas aml-ddiwylliannol ac amlieithog mewn cenedl ddwyieithog.

Rydym eisiau gweld mwy o gamau yn cael eu cymryd i gyflawni disgwyliadau pobl y gallant archwilio cyfoeth eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith, boed fel cynulleidfa, ymgyfranogwr neu artist.

Y mae rhai cryfderau penodol i iaith a hunaniaeth yng Nghymru. Ond yn y ceisiadau a gawsom, gobeithiem y byddai mwy o dystiolaeth o fanteisio ar ddau gyfle allweddol: yn gyntaf, cyfle i ddatblygu cynulleidfaoedd iaith Gymraeg; yn ail, cyfle i greu gwaith sy'n caniatáu i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg rannu a deall diwylliant iaith Gymraeg.

### Cynhwysiant diwylliannol yw un o gonglfeini cynaliadwyedd a lles.

Mae'r pethau hyn yn bwysig yng Nghymru. Maent yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad clir i roi lle canolog i gynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy yn y llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Fel mewn cymaint o agweddau ar fywyd dinesig a diwylliannol, y mae gan y celfyddydau rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi egwyddorion lles a chynaliadwyedd. A bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn helpu i greu cymunedau cadarn gydag unigolion y mae eu bywydau yn greadigol, cadarnhaol a chynhyrchiol.

### Felly dyma'r adeg i'r Celfyddydau arwain.

Nid yw ysgogiad creadigol yn ffynnu ar ddiffyg gweithgarwch. Pan fo'r Celfyddydau wir yn gweddnewid, y mae am eu bod yn datgelu agweddau newydd ar brofiad sy'n ein hysbrydoli i fod yn wahanol – a gwell.

Dros nifer o ddegawdau, bu'r celfyddydau a ariennir gan y cyhoedd ar flaen y gad ym maes cydraddoldeb a newid cymdeithasol. A thrwy genhadaeth o'r fath, mae rhagor o bobl wedi'u grymuso i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Y mae'n genhadaeth y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei dilyn drwy'r prosiectau a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu.

## Ac yn olaf, beth am Gyngor Celfyddydau Cymru ei hun?

### Y mae'n gywir bod y cyhoedd yn mynnu bod y sefydliadau cyhoeddus a ariennir ganddynt yn effeithlon ac effeithiol.

Ar adeg o lymder ariannol, mae'n rhaid inni gymhwyso'r un disgyblaethau ariannol i'n hunain â'r hyn a ddisgwyliwn gan eraill. Felly mae'n rhaid inni hefyd wynebu'r her o ddarparu gwasanaeth proffesiynol effeithiol a pherthnasol, a hynny am gost is.

### Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cymryd nifer o gamau i leihau costau.

Bydd hyn yn parhau. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ystyried sut gallwn wneud arbedion gan gynnal gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel. Ni fydd yn hawdd, ond mae'n gyfrifoldeb arnom i wneud popeth a allwn i sicrhau y caiff cymaint o arian â phosibl ei wario'n uniongyrchol ar y celfyddydau.

### Mae'r celfyddydau yn newid ac yn esblygu, ac felly hefyd y byd o'n cwmpas.

Mae'n rhaid i'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn trefnu ein hunain adlewyrchu hynny. Rhan fach yn unig o'r ateb i'r newidiadau hyn sydd gennym ni, Gyngor Celfyddydau Cymru. Ond rhaid inni fod yn barod i fod mor arloesol yn ein gwaith ein hunain ag y disgwyliwn i'r sefydliadau a gyllidir fod yn eu gwaith hwythau.

### Rhaid inni wneud newidiadau – newidiadau a fydd yn anodd a heriol inni.

Ond ni fydd hyn yn ein hatal rhag gwthio'n galed i ganfod yr atebion cywir. Mae risgiau ac ansicrwydd bob amser ynghlwm wrth geisio cofleidio dyfodol newydd na ellir gwybod yn llawn beth ydyw ymlaen llaw. Ond, gydag egni ac ymrwymiad ein staff, mae pethau da yn bosibl. A chyda chydweithrediad ac ewyllys da ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, hyderwn y gallwn gydweithio i sicrhau llwyddiant a fydd yn para am lawer o flynyddoedd i ddod.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd a wnawn.

# Atodiad

| Sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yn y portffolio arfaethedig o sefydliadau refeniw | | |
|---|---|---|
| Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth | Hijinx | Sherman Cymru |
| Arad Goch | Hafren | Sinfonia Cymru |
| Arts Alive * | Jukebox Collective * | Canolfan Celfyddydau Taliesin |
| Gofal Celf | Llenyddiaeth Cymru | Theatr Bara Caws |
| Cyswllt Celf | Live Music Now Cymru | Theatr Brycheiniog |
| Artis Cymuned | Canolfan y Celfyddydau, Llantarnam | Theatr Felinfach |
| Artes Mundi | Opera Canolbarth Cymru | Theatr Genedlaethol Cymru |
| Ballet Cymru | Oriel Mission | Theatr Iolo |
| Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC | Mostyn | Theatr Mwldan |
| Sefydliad y Glowyr, y Coed Duon * | Theatr Gerdd Cymru | Theatr na n'Óg |
| Canolfan Gerdd William Mathias | Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru | Theatr Torch |
| Chapter | National Theatre Wales | trac |
| Clwyd Theatr Cymru | Nofit State | Tŷ Cerdd |
| Theatr i Bobl Ifanc, Clwyd Theatr Cymru | Dawns NEW | Ucheldre |
| Cerdd Gymunedol Cymru | Oriel Davies | Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro |
| Cwmni'r Frân Wen | Oriel Myrddin | Plant y Cymoedd |
| Dawns i Bawb | Canolfan y Celfyddydau, Pontardawe | Volcano |
| Celfyddydau Anabledd Cymru | Pontio | Canolfan Mileniwm Cymru |
| Ffotogallery | Dawns Powys | Neuadd Les, Ystradgynlais |
| G39 | Theatrau RhCT | Opera Genedlaethol Cymru |
| Galeri | Glan yr Afon | CBAC (67) |
| Oriel Glynn Vivian | Dawns Rubicon | |
| Head4Arts | Canolfan Grefft Rhuthun | |

* Sefydliad newydd yn y portffolio refeniw

| Ymgeiswyr Eraill | | |
|---|---|---|
| Bydd y sefydliadau canlynol yn gymwys i wneud cais am gyllid Loteri. | | |
| Ballet Nimba<br>Neuadd Goffa y Barri<br>Bombastic<br>Celfyddydau Cymunedol Breaking Barriers<br>Artistiaid Butetown<br>Celf o Gwmpas<br>Creu Cymru<br>Dance Blast<br>Dawns TAN Dance ϕ | Earthfall ϕ<br>Ensemble Cymru<br>Treftadaeth Jazz Cymru<br>Urdd Gwneuthurwyr Cymru<br>Mess up the Mess<br>Migrations<br>OPRA Cymru<br>Opera Dinas Abertawe<br>Theatr Byd Bychan | Carnifal SWICA ϕ<br>Cwmni Theatr Taking Flight<br>Elusen ALOUD<br>Y Stiwt, Rhosllannerchrugog<br>Theatr Ffynnon ϕ<br>Ymddiriedolaeth Touch ϕ<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Zoom Cymru (26) |

ϕ Sefydliad refeniw presennol